

## **CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN YSGOL LLANDDOGED, LLANDDOGED NOS LUN 29ain Ebrill, 2019**

### **PRESENNOL**

Cyng. Eifion Williams (Cadeirydd), Cyng. Arwel Ll. Jones, Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Alun Morris, Cyng. John Owen, Delyth Algieri (clerc).

### **YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Dylan Jones, Cyng. Hefin Martin, Cyng. Michael Rayner, Cyng Austin Roberts

### **CADARNHAU'R COFNODION**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 18fed Mawrth, 2019.

### **Materion yn codi o'r cofnodion**

#### **1) CEGIN WEN, LLANDDOGED**

Cyng. Michael Rayner wedi gosod yr arwydd ym Maes parcio Cegin Wen. Diolchodd a chanmolwyd y Cadeirydd i Cyng. Michael Rayner am ei rhodd i'r Gymuned.

Y cyngor wedi derbyn cais i gael golau yn y maes parcio Cegin Wen. Y Clerc i holi Cyng. Austin Roberts pwy i gysylltu yn y sir ynglŷn â chael golau yno.

### **Y BONT YM MHONT Y GARTH, MAENAN**

Cadarnhaodd Cyng. Austin Roberts fod Emyr Jones o'r Cyngor Sir yn fodlon lledu'r fynedfa i'r Bont ym mhont y Garth Maenan.

### **TARMACIO FFYRDD YR ARDAL**

Y Cyngor heb gael unrhyw diweddariad gan yr Adran Priffyrdd ynglŷn â tharmacio y ffyrdd canlynol: \_

- Ffordd o'r A470 o Faenan Abbey heibio'r Felin Maenan.
- Ffordd wrth Ffrith Uchaf/Ffrith Isaf i Waen Oer Maenan.
- Ffordd wrth Cefn Llech hyd at Efail Uchaf, Maenan.
- Ffordd Fron Francis i lawr at y Groesffordd, Llanddaged.
- Ffordd Tyrpeg Uchaf o Alltgoch i fyny heibio'r ysgol.
- 

### **SWYDD WAG - CYNGHORYDD Y GYMUNED LLANDDOGED**

Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi derbyn y dogfennau perthnasol ar gyfer hysbysebu'r swydd wag ar ward Cyngor Llanddaged. Bydd yr hysbyseb yn mynd i fyny ar hysbysfwrdd y pentref a gwefan y Cyngor wythnos nesaf.

### **CAE CHWARAE MAENAN**

Derbyniodd y clerc neges gan aelod o'r cyhoedd fod y ffens wrth fynedfa at y 'ctrich cratch' i'r cae chwarae Maenan ddim yn ddiogel ac yn rhydd. Cyn. John Owen am fynd i gael golwg ar y ffens ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

### **MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH**

Cyhoeddodd y Clerc ei bod wedi derbyn neges gan Cyng. Michael Rayner ei fod wedi gosod plac gyda gwybodaeth am y daith gerdded o gwmpas Cadair Ifan Goch ac ardal Maenan. Hefyd mae arwydd wedi ei osod yno yn rhybuddio y ceir eu bod yn parcio yno ar gyfrifoldeb eu hunain.

## **CYMERADWYO CYFRIFON Y CYNGOR SYDD YN DIWEDDU 31ain MAWRTH 2019.**

Rhannodd y clerc mantolen o gyfrifon y cyngor am y flwyddyn 2018/19 ac aeth aelodau'r Cyngor dros y wybodaeth. Cadarnhawyd a chymeradwyodd aelodau'r cyngor fod y cyfrifon yn gywir drwy godi ei dwylo. Bydd y cyfrifon yn cael eu hanfon ymlaen i'r Cyfrifydd Iona Edwards Archwiliwr mewnol y Cyngor.

## **GOHEBIAETH**

1. Anfoneb gan PJ Webworks tal am server i wefan y Cyngor Cymuned.

## **CYNNAL A CHADW**

- 1) Tyllau yn y ffordd wrth Ffrith Isaf a Ffrith Ucha, Maenan..
- 2) Tyllau yn y ffordd wrth Llidiart y Mynydd a Penbryndoged Ffordd Tyrpeg Uchaf, Llanddoged.
- 3) Angen glanhau'r cilfan wrth Pant Llin Bach, Ffordd Tyrpeg Uchaf, Llanddoged.
- 4) Angen torri'r coed yn ôl wrth Cae Brychiad, Llanddoged.
- 5) Tyllau yn y ffordd ar ffordd Fron Francis, Llanddoged.
- 6) Angen 'sweeper' ar y tarmac newydd ar ffordd Llanddoged.
- 7) Angen cysylltu gydag Ymddiriedolaeth Genedlaethol i newid y plac gwybodaeth am 'Cadair Ifan Goch' yn y maes parcio Maenan.
- 8) Twll yn tarmac wrth y gwter ar Ffordd Trwyn Swch, Llanddoged.

## **Llwybrau Cyhoeddus**

- 1) Giat 'critch cratch' wrth Rhiwdafnau Maenan wedi torri.
- 2) Cais gan berchennog Rhiwdafnau gael ' way marker' wrth y stepiau dros y wal ar y llwybr cyhoeddus.
- 3) Angen clirio o gwmpas yr arwydd 'Llwybr Cyhoeddus' yn ymyl y Capel wrth Rhiwdafnau Maenan.